

**Adroddiad
Monitro Blynyddol
Cynllun Iaith
Gymraeg**

1 Ebrill 2022–31 Mawrth 2023

Amdanom ni

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 788,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

Ein Hymrwymiad i'r Gymraeg

Yn unol ag Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, rydym yn glir ynghylch yr angen i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, cyn belled ag y bo'n briodol yng nghyd-destun rheoleiddiwr y DU. a lle bo hynny'n rhesymol ymarferol. Cymeradwywyd ein cynllun iaith Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2011.

Nod yr adroddiad monitro blynyddol hwn yw crynhoi ein cynnydd wrth weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023, yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg. Mae adroddiad cryno (yn seiliedig ar gwestiynau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg) i'w weld yn Atodiad 1.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio'n gyson â'n cynllun iaith Gymraeg, ac ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ac eraill i fod yn ymatebol ac yn wybodus yn ein dull o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein gwaith yn y maes hwn a bydd yn hygyrch i gwsmeriaid drwy drafodaeth gyhoeddus mewn sesiwn Cyngor yn ogystal â chael ei gyhoeddi ar ein gwefan, yn unol â blynyddoedd blaenorol.

Blaenoriaeth Strategol

Mae ein Strategaeth bresennol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2025 ac rydym yn datblygu ein Strategaeth 2025 - 2030. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r cysylltiadau cryf ar draws pedair gwlad y DU ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyd-destunau amrywiol ym meysydd gwleidyddol, darparu gwasanaethau a chynllunio'r gweithlu; rydym yn ymroddedig i 'adolygu a datblygu ein presenoldeb' yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU.

Rydym wedi cynnwys gweithredu Safonau'r Gymraeg fel un o'n 22 ymrwymiad corfforaethol.

Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiad cysylltiedig yn sail i'n dull o gydymffurfio â'r Gymraeg, fel y nodir isod:

Teg

Byddwn yn sicrhau bod pobl sy'n rhyngweithio â'n gwasanaethau yn cael cyfleoedd teg i gyrchu gwybodaeth yn Gymraeg, ac yn gallu ymddiried yn ein hymrwymiad i'r Rheoliadau newydd.

Caredig

Rydym yn gwerthfawrogi pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, a byddwn yn barchus wrth ymdrin â cheisiadau Cymraeg. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn hyderus i ymgysylltu â ni yn Gymraeg.

Cydweithredol

Byddwn yn buddsoddi yn ein perthnasoedd presennol, gan gynnwys gyda Chomisiynydd y Gymraeg, ac yn ymgysylltu â chymunedau Cymraeg ehangach, gan gydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n dda gydag eraill.

Uchelgeisiol

Byddwn yn agored i ffyrdd newydd o fodloni ein gofynion o ran y Gymraeg, a byddwn bob amser yn anelu at wneud ein gorau dros siaradwyr Cymraeg.

Llywodraethu ein gwaith iaith Gymraeg

Mae aelodau o'r Cyngor, y Tîm Gweithredol a'n holl gydweithwyr yn chwarae rhan wrth gyflawni ein cynllun iaith Gymraeg.

Ym mis Mawrth 2023 ymunodd Sam Foster â'r NMC fel Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol a chymerodd Sam hefyd y rôl fel Cyfarwyddwr Arweiniol Cymru, gan gymryd drosodd oddi wrth Gerry Walters a adawodd yr NMC ym mis Tachwedd 2022. Yn y rôl hon, mae Sam yn goruchwyllo ymgysylltiad â rhanddeiliaid yng Nghymru ar lefel strategol ac yn cadeirio ein gweithgor mewnol Cymru.

Mae ein gweithgor mewnol Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod diweddariadau allweddol sy'n ymwneud â'n rôl reoleiddiol yng Nghymru. Maent yn ystyried safbwynt pobl sy'n gweithio ac yn byw yng Nghymru ar ddatblygiadau polisi a chyhoeddiadau arfaethedig yr NMC. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r NMC.

Gweithgareddau Diweddar

Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, fe wnaeth yr NMC gynnal nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Bob chwe wythnos, cyfarfu Andrea Sutcliffe (Prif Weithredwr a Chofrestrydd), Gerry Walters (Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol) neu Sam Donohue (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Allgymorth yn yr NMC) â Sue Tranka (Prif Swyddog Nyrsio (CNO) Cymru), i drafod gwaith allweddol ar gyfer yr NMC, gan gynnwys briffio Sue ar gyhoeddiadau allweddol ac adroddiadau data blynyddol.
- Mynychodd Andrea Sutcliffe, Gerry Walters, a Sam Donohue gyfarfodydd misol Prif Swyddog Nyrsio a Phrif Swyddog Bydwreigiaeth y pedair gwlad (CMidO) i gasglu a rhannu diweddariadau gyda'r Prif Swyddogion Nyrsio a'r Prif Swyddog Bydwreigiaeth. Mae Sue Tranka, Gill Knight (Swyddog Nyrsio) a Karen Jewel (Prif Swyddog Bydwreigiaeth Cymru) yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.
- Ar 5 Mai 2022, ymwelodd Andrea Sutcliffe a Gerry Walters â Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth (WHO CC) ac Uned y Menywod, Ysbyty Athrofaol Cymru i ddathlu diwrnod rhyngwladol y fydwraig.
- Ar 17 Gorffennaf 2022, cyfarfu Andrea Sutcliffe, a David Warren (Cadeirydd y Cyngor) â Gweinidog Iechyd Cymru, y Farwnes Morgan o Drelái i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddi ar faterion a blaenoriaethau allweddol ar gyfer yr NMC.
- Ar 28 Gorffennaf 2022, mynychodd Gerry Walters gyfarfod cyffredinol blynyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).
- Ar 4 Awst 2022, cyflwynodd Gerry Walters wybodaeth am nyrsio band 4 yn nigwyddiad bord gron Coleg Brenhinol Nyrsio Cymru.

- Ar 14 Medi 2022, roedd Gerry Walters yn siaradwr gwadd yng ngwobrau Nyrs y Flwyddyn yr RCN 'sgwrs wrth ymyl tân' yng Nghymru.
- Mae Jenny Collard, Pennaeth Polisi Rheoleiddio, wedi cyfarfod â GMC Cymru a rheoleiddwyr eraill yn fisol ers mis Medi 2022. Fe fuont yn trafod y Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg newydd i sicrhau dull gweithredu cyson ac i rannu dysgu.
- Ar 31 Hydref 2022, fe wnaeth Gerry Walters, Sam Donohue, a Sharon Clement-Thomas (Cynghorydd Rheoleiddio) gyfarfod â Sara Mosely, Pennaeth CMC Cymru.
- Ar 1 Chwefror 2023, fe wnaeth Andrea Sutcliffe a David Warren gyfarfod â Gweinidog Iechyd Cymru, y Farwnes Morgan o Drelái i roi diweddariadau pellach ar ein gwaith.
- Ar 22 Chwefror 2023, fe wnaeth Matt Hayday (Ysgrifennydd y Cyngor) ac Alex Urquhart (Uwch Swyddog Ymgysylltu â Rhanddeiliaid) gyfarfod â Gill Knight i drafod cynlluniau i gynnal cyfarfod Cyngor Agored yng Nghaerdydd ar 27 Medi 2023.
- Ar 20 Mawrth 2023, fe wnaeth Andrea Sutcliffe ysgrifennu at Sue Tranka yn amlinellu ein cynlluniau i gynnal cyfarfod Cyngor Agored ar 27 Medi 2023.

Cynnydd ar ein gweithredoedd blaenorol

Yn ein hadroddiad monitro blynyddol blaenorol, gwnaethom ymrwymo i ganolbwyntio ar sicrhau y gallwn wreiddio a dangos ein cydymffurfedd â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 yn effeithiol¹ unwaith y cyflwynwyd y rhain gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Fe wnaethom ymateb i'r ymgynghoriad ar ein hysbysiad cydymffurfio drafft a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cymru ar 13 Rhagfyr 2022. Roeddem yn falch i'n tystiolaeth gael ei derbyn yn ein hysbysiad terfynol ar gyfer amrywiad ac estyniad amser ar gyfer safon 20 – sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni gynhyrchu ein ffurflenni cais i ymuno â'r gofrestr yn Gymraeg. Mae hyn wedi'i gyfyngu i lwybr ymgeisio'r DU yn unig ac mae gennym tan fis Rhagfyr 2025 i'w weithredu.

Rydym wedi sefydlu bwrdd prosiect mewnol i sicrhau y cyflawnir y newidiadau y mae angen i ni eu gwneud yn effeithiol er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r Rheoliadau newydd.

Adroddir ar gynnydd o ran gweithredu'r Rheoliadau drwy gynllun corfforaethol ein Cyngor, er mwyn darparu gwelededd o'r gwaith ac i ddangos ein cefnogaeth a'n hymrwymiad i gyrraedd Safonau'r Gymraeg.

Rydym yn herio ein hunain i ddatblygu cynnwys creadigol a deniadol i godi ymwybyddiaeth o'r Safonau a hyrwyddo eu buddion gyda'n cydweithwyr ar draws yr NMC. Rydym yn datblygu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr i sicrhau bod pob cydweithiwr yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau newydd.

¹ [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 8\) 2022 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

Gweithredoedd allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf

Bydd ein gweithgareddau ar gyfer 2023 - 2024 yn canolbwyntio ar wreiddio'n effeithiol a dangos ein bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Safonau'r Gymraeg newydd erbyn 6 Rhagfyr 2023. Rydym yn cynnal cyfarfod Cyngor yng Nghymru ar 27 Medi 2023 a byddwn yn rheoli'r cyfarfod hwnnw fel pe bai'r Rheoliadau mewn grym. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni fireinio ein canllawiau a'n gweithdrefnau gweithredu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol unwaith y daw'r Rheoliadau i rym.

Rydym wedi nodi siaradwyr Cymraeg yn ein sefydliad ac mae cydweithwyr eisoes yn manteisio ar y cyfle i ddysgu Cymraeg. Byddwn yn cynnwys y cynnig rhagweithiol i ohebu â ni yn Gymraeg yn ein llythyrau addasrwydd i ymarfer cychwynnol o'r Hydref, a rhagwelwn y bydd ein gwasanaethau ffôn awtomataidd ar gael yn Gymraeg cyn y dyddiad cau ym mis Rhagfyr.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r rheolyddion gofal iechyd eraill i rannu'r hyn a ddysgir a sicrhau dull gweithredu cyson er budd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.

Atodiad 1

Adroddiad cryno ar weithrediad y cynllun iaith Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Asesiad o effaith polisi

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer a chanran y polisïau (gan gynnwys y rhai a adolygwyd neu a ddiwygiwyd) lle rhoddwyd ystyriaeth i'r effeithiau y byddai'r polisi yn eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg.

Ein gwaith

Rydym yn parhau i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (EqIA) fel rhan o'r gwaith o ddatblygu polisïau a phrosesau newydd, ac unrhyw adolygiad o'n polisïau neu safonau presennol. Mae ein fframwaith EqIA yn gofyn yn benodol i gydweithwyr ystyried effeithiau unrhyw newidiadau i'n polisïau, prosesau neu safonau, ar siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi datblygu a pharhau i ddiweddarau EqIA sy'n cwmpasu holl ffrydiau gwaith datblygu polisi ein rhaglen waith diwygio rheoleiddio. Ystyriodd yr EqIA hwn y defnydd o'r Gymraeg ar y gofrestr gyhoeddus ar ôl diwygio'r rheoliadau yng ngoleuni'r Rheoliadau Safonau'r Gymraeg newydd. Cynhaliwyd EqIA pan wnaethom ddatblygu ein polisïau ar bobl sydd wedi'u dadleoli'n orfodol, ac ymrwymwyd i gyfieithu'r holl ganllawiau i'r Gymraeg ar gais.

Fe wnaethom hefyd barhau i ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth i ni ddiweddarau'r EqIA ar gyfer ein hadolygiad o'n gofynion iaith Saesneg. Yn haf 2022, cyfieithwyd ein dogfen ymgynghori a'n harolwg i'r Gymraeg, a chawsom chwe ymateb yn Gymraeg. O'r 34,000 o ymatebion a gawsom, roedd bron i 900 (tri y cant) gan ymatebwyr yng Nghymru, o gymharu â'n cofrestr gyffredinol lle mae dros 38,000 o gofrestreion (pump y cant) yng Nghymru. Nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau andwyol i'r Gymraeg mewn unrhyw un o'r EqIA's hyn.

Cwblhawyd adolygiadau o'n Safonau hyfedredd ar gyfer cymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol (SPQ) a'n Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) a'n Safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru. Cymeradwywyd y safonau newydd hyn a symudwyd i'w gweithredu, a oedd yn cynnwys cwblhau EqIA ac ystyried effeithiau posibl newidiadau i'n safonau ar siaradwyr Cymraeg. Ni chanfu'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd unrhyw effeithiau na chanlyniadau anfwriadol posibl ar gyfer siaradwyr Cymraeg, ond byddwn yn parhau i gysylltu â rhanddeiliaid o bob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru, wrth i ni ystyried gweithredu'r safonau newydd hyn.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Enghraifft o asesiad y bernir ei fod yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a manylion am sut y diwygiwyd y polisi o ganlyniad.

Ein gwaith

Nid ydym wedi cynnal unrhyw EqIA a arweiniodd at ddiwygio polisi arfaethedig neu bolisi presennol yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Cyhoeddiadau

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd.

Ein gwaith

Mae cyfanswm o 4,097 o ddogfennau wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ar hyn o bryd. Mae 1,093 o'r cyhoeddiadau hyn wedi'u hanelu at y cyhoedd, ac mae 2,159 yn ddogfennau canlyniadau Addasrwydd i Ymarfer.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.

Ein gwaith

Mae 154 o ddogfennau ar ein gwefan sydd ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys adroddiadau blynyddol, dogfennau safonau, dogfennau ail-ddilysu a dogfennau safonau addysg.

Mae hyn yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg sy'n dweud y bydd gwybodaeth sydd wedi'i hanelu at gleifion ac aelodau'r cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyhoeddir safonau, canllawiau a deunydd technegol neu arbenigol arall a anelir at weithwyr proffesiynol ac nid yn uniongyrchol at y cyhoedd yn Saesneg.

Fodd bynnag, rydym yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais. Yn ogystal â gofynion ein cynllun, rydym yn cyfieithu deunyddiau pan ydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, er enghraifft ein deunyddiau ymgynghori a dogfennau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru.

Cwynion

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer yr holl gŵynion a dderbyniwyd am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru.

Ein gwaith

Cawsom 192 o atgyfeiriadau mewn perthynas â nyrs gofrestredig, bydwraig, neu gydymaith nyrsio â chyfeiriad cofrestredig yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Roedd hyn yn cyfrif am chwech y cant o'r holl bryderon.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru.

Ein gwaith

Ni chawsom unrhyw atgyfeiriadau yn Gymraeg a oedd yn ymwneud â nyrs, bydwaig, neu gydymaith nyrsio cofrestredig â chyfeiriad cofrestredig yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chydymffurfedd y Cyngor â'i gynllun iaith Gymraeg.

Ein gwaith

Ni dderbyniodd y tîm Ymholiadau a Chwynion Cwsmeriaid unrhyw gwynion corfforaethol mewn perthynas â chydymffurfedd yr NMC â'r cynllun iaith Gymraeg yn y cyfnod adrodd 2022-2023.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Egluro natur unrhyw gwynion sy'n ymwneud â chydymffurfedd y Cyngor â'i gynllun iaith Gymraeg.

Ein gwaith

Amherthnasol – ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â chydymffurfio â'r Cynllun iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd 2022-2023.

Gwefan

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Canran gwefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg.

Ein gwaith

Mae llai nag un y cant o'n gwefan ar gael yn Gymraeg.

Mae gennym un dudalen wybodaeth yn Gymraeg ar y wefan sy'n egluro cylch gorchwyl ein sefydliad ac yn cyfeirio siaradwyr Cymraeg at wasanaethau eraill.

Yn ogystal â hyn, mae gennym dros 154 o gyhoeddiadau Cymraeg ar ein gwefan, gan gynnwys adroddiadau blynyddol, dogfennau safonau a chanllawiau ailddilysu. Mae hyn yn cynyddu presenoldeb y Gymraeg ar ein gwefan.

Rydym hefyd yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Tystiolaeth yn ymwneud â gwelliannau neu gynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar y wefan.

Ein Gwaith

Rydym yn gweithio i gyfieithu ffurflenni a gwybodaeth i'r cyhoedd i'r Gymraeg yn hydref 2023 yn unol â rheoliadau'r Gymraeg.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Tystiolaeth yn ymwneud â'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd, yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg.

Ein gwaith

Pryd bynnag y byddwn yn cyhoeddi dogfen i'r cyhoedd (fel dogfen gefndir ymgynghori) rydym yn sicrhau bod y fersiwn Gymraeg ar gael hefyd

Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Gwybodaeth am dulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol yn nefnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau.

Ein gwaith

Rydym yn cyhoeddi 'pecynnau' o ddeunyddiau ar ein gwefan, a fydd fel arfer ar gyfer dogfennau cyhoeddus pwysig, yn cynnwys fersiwn Saesneg o gyhoeddiad, fersiwn Gymraeg a fersiwn hawdd ei darllen. Rydym yn cyfeirio at y pecynnau hyn o ddeunyddiau trwy ein cylchlythyrau a chyfathrebiadau e-bost, sy'n golygu bod pobl yn cael eu cyfeirio at dudalennau glanio sydd â'r holl fersiynau sydd ar gael wedi'u cyflwyno gyda'i gilydd er hwylustod. Mae fersiynau Cymraeg o ddogfennau bob amser yn cael eu cyflwyno'n glir ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg. Eleni, rydym hefyd wedi dechrau cynnwys capsïynau Cymraeg ar gyfer animeiddiadau a chynnwys fideo sydd newydd eu creu. Ar gyfer ein cylchlythyr cyhoeddus, o fis Hydref 2023, byddwn yn cynnwys yr opsiwn i ddarllen pob cylchlythyr yn Gymraeg.

Mae tudalen ar ein gwefan sy'n rhoi manylion ein cynllun iaith Gymraeg a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig. Ceir mynediad i hwn drwy fotwm 'Cymraeg' ar frig ein bar llywio ac fe'i cyflwynir yn Gymraeg fel y rhagosodiad.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau i'n canolfan gyswllt am wybodaeth neu wasanaethau yn Gymraeg, nac unrhyw gwynion yn ymwneud â'n methiant i ddarparu eitemau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg. .

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e., drwy asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth presennol/posibl).

Ein gwaith

Er nad ydym wedi cael unrhyw adborth cwsmeriaid yn sôn am y Gymraeg, rydym yn asesu profiad defnyddwyr presennol trwy wahoddiad i'n harolygon adborth cwsmeriaid. Mae cwsmeriaid yn graddio eu boddhad ac yn cael y cyfle i adael sylwadau ychwanegol ar unrhyw bwnc y dymunant, megis adborth ar gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol o ymatebion yn cael eu casglu mewn adolygiadau boddhad cwsmeriaid, sy'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer gwella profiad ein cwsmeriaid.

Achosion addasrwydd i ymarfer

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru.

Ein gwaith

Yn ystod 2022 – 2023 fe wnaethom gynnal pedwar gwrandawriad Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (FtP) ar wahân yng Nghymru, i gyd yng Nghaerdydd. Roedd tri o'r rhain yn wrandawiadau sylweddol (yr oedd un ohonynt yn achos ar y cyd ar gyfer dau gofrestrai gwahanol) ac roedd un yn wrandawriad adolygu Gorchymyn Interim y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y gwrandawiadau lle roedd tyst yn dymuno siarad Cymraeg.

Ein gwaith

Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau yn ystod y cyfnod adrodd pan fynegodd tyst ddymuniad i siarad Cymraeg.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y gwrandawiadau lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.

Ein gwaith

Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau yn ystod y cyfnod adrodd lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg.

Ein gwaith

Ni wnaethom gynnal unrhyw wrandawiadau yn ystod y cyfnod adrodd a gynhaliwyd yn Gymraeg.

Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer a chanran staff y sefydliad sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

Ein gwaith

Mae gan ein cydweithwyr fynediad i gwrs hyfforddi ar-lein dewisol ar godi ymwybyddiaeth o'n cynllun iaith Gymraeg a'i bwysigrwydd. Mae hyn yn rhan o gyfres o gyrsiau ar-lein sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cydweithwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am ein gwaith a'n rôl fel rheolydd.

Cwblhawyd 25 yn ystod y cyfnod adrodd, sy'n cyfrif am ddau y cant o'n gweithlu. Mae hyn yn fras yr un fath â'r cyfnod adrodd 2021 – 2022, lle cwblhawyd 21, sef dau y cant o'n gweithlu ar y pryd.

Hunan-reoleiddio

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Manylion y trefniadau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i'w alluogi i hunanreoleiddio'n effeithiol.

Ein gwaith

Rydym wedi parhau i weithredu yn unol ag Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a gyda'n cynllun iaith Gymraeg ein hunain a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2011.

Ar wahân, rydym wedi parhau i wneud paratodau cyn cyflwyno Rheoliadau Safonau'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020 ac rydym wedi monitro'r cynnydd a wnaed a'i effaith debygol arnom ers hynny.

Mae rhan o'n paratodau ar gyfer sicrhau cydymffurfedd â'r Rheoliadau newydd yn cynnwys datblygu prosesau a chanllawiau fel y gallwn hunanreoleiddio'n fwy effeithiol. Rydym yn datblygu un ddogfen a fydd yn codi proffil ein rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau a hefyd yn hyrwyddo'r manteision. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo gallu cydweithwyr i ddysgu Cymraeg a'r manteision a ddaw yn sgil hynny i aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Rydym yn datblygu proses gadarn i adolygu ein cydymffurfedd â'r safonau yn flynyddol a sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu cofnodi ar ein hadroddiad cydymffurfio ar-lein (safon 64).

Byddwn hefyd yn gwneud uwch gydweithwyr yn gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â safonau penodol i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni'r gofynion cydymffurfio.

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk

 @nmcnews  @nmcuk

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).